PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 4 MEDI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Philippa Hill-John, Owen Jones, Lancaster, Owen, Wong a/ac Wood |

21 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Derbyshire, Parry a Wild.

22 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

23 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2018 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

24 : BRIFFIO AELODAU: AIL ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CAERDYDD

Y Cyngor i dderbyn adroddiad o'r enw 'Ail Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd' ar 20 Medi 2018. Derbyniodd y Pwyllgor friff ar yr adroddiad Cabinet. Gofynnwyd i'r aelodau nodi cynnwys yr adroddiad a thrafod unrhyw gamau i'r dyfodol.

Dywedwyd wrth yr aelodau y cafodd y Cynllun Datblygu Lleol 2006 i 2026 (CDLl) ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ar 26 Ionawr 2016 ac yn rhan o'r broses mae angen i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Y Cabinet i dderbyn yr ail AMB sy'n rhoi datganiad sefyllfa byrdymor a chymhariaeth gyda'r data gwaelodlin yn yr AMB cyntaf. Bydd monitro yn y dyfodol yn galluogi nodi tueddiadau a dod i gasgliadau mwy cadarn. Bydd hefyd yn helpu i roi gwybod faint y mae'r strategaeth CDLl, amcanion a pholisïau'n cael eu cyflawni. Bydd y canfyddiadau hyn yn helpu i adolygu'r broses y mae angen i'r Cyngor ei gwneud yn 2020.

Adroddwyd bod canfyddiadau'r AMB yn gadarnhaol yn gyffredinol gyda'r mwyafrif o ddangosyddion yn cael eu dangos yn wyrdd, sy'n nodi bod y rhan fwyaf o'r polisïau CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Nodwyd crynodeb o'r perfformiad eto yn y prif bynciau yn yr adroddiad. Nodwyd y data a'r casgliadau yn fanylach yn Atodiad 1.

Croesawodd y Cadeirydd Andrew Gregory, Cyfarwyddwr a James Clemence, Pennaeth Cynllunio i'r cyfarfod. Crynhaodd y swyddogion gynnwys yr adroddiad. Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- Nodwyd yr aelodau fod prisoedd tai ar gyfartaledd wedi codi gan 27% rhwng 2006 a 2017. Gofynnwyd yr aelodau a yw hyn yn effeithio ar y gallu i werthu neu nifer y bobl sy'n cael tai mewn datblygiadau tai. Dywedodd swyddogion mai dangosydd cyd-destunol yw hyn sy'n tanlinellu pwysigrwydd dull a arweinir gan gynlluniau o ran ystod a dewis y tai sy'n cael eu gwneud ar gael. Mae ystod y stoc yn y Ddinas yn ehangach na 10 mlynedd yn ôl pan oedd 90% o ddatblygiadau newydd ar safleoedd tir llwyd a arweiniodd at ystod cul o fathau o dai. Mae'r CDLl yn galluogi stoc tai newydd ar ystod o safleoedd.

- Gofynnodd yr aelodau a oes angen craffu'n fwy ar ddangosyddion sydd â statws 'melyn' – dim angen camau. Credodd y swyddogion ei bod yn anodd greu darlun manwl o dueddiadau ar ôl dwy flynedd o fonitro. Cyflwynwyd y CDLl ym mis Ionawr 2016 ac ni ddisgwyliwyd ceisiadau cynllunio'n syth. Roedd oedi rhwng cyflwyno'r CDLl a dechrau'r datblygiadau newydd. Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar 3 o 5 safle strategol.

- Gofynnodd Aelod am fwy o wybodaeth ar lefel ardrethi gwag yn eiddo manwerthu yn y Ddinas ac a yw unrhyw dueddiadau wedi'u nodi dros y pum mlynedd diwethaf mewn perthynas â newid cyfansoddiad y stryd fawr. Yn benodol, gofynnwyd y Cynghorydd a oes cynnydd wedi bod yn nifer y siopau elusen. Cytunodd swyddogion i ymchwilio i'r mater hwn ymhellach ond nad oeddent yn siŵr a yw'r awdurdod yn cadw y swm hwn o fanylion. Awgrymodd y Cynghorwyr y gallai fod yn bosibl nodi siopau elusen o ardrethi busnes.

- Nododd y Cyngor nad yw tai newydd yn cael eu cwblhau yn ôl yr amserlen. Gofynnodd yr aelodau pam mae'r targedau wedi'u gosod ar y lefelau perthnasol os yw swyddogion yn ymwybodol y byddai rhywfaint o oedi rhwng cymeradwyo'r CDLl, derbyn cais cynllunio a chwblhau unedau tai newydd. Gofynnodd yr aelodau hefyd a fyddai unrhyw ffactorau cyfyngu eraill ac a yw datblygwyr yn gallu cynyddu'r gyfradd y mae unedau tai newydd yn cael eu cwblhau. Dywedodd swyddogion fod y targedau wedi'u gosod ar sail asesiad/data gan ddatblygwyr. Gosodwyd targedau gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Nod safleoedd strategol yw mwyhau'r swm sy'n cael ei gyflawni trwy gael mwy nag un allfa – mwy nag 1 datblygwr – ar y safle. Mae ystyriaethau o ran seilwaith a threfniadau Adran 106 – gan fod y rhai wedi'u cysylltu ag ysgogwyr ac yn cael eu hadeiladu fesul camau.

- Gofynnodd yr aelodau a yw swyddogion yn ymwybodol o unrhyw resymau dros beidio â dechrau cwblhau adeiladau yn ôl yr amserlen eto. Roedd y swyddogion yn optimistig y byddent. Dyma bwrpas monitro blynyddol ond dim ond am 2 flynedd rydym wedi bod yn gwneud hyn a bydd yr awdurdod mewn sefyllfa well mewn 2 flynedd. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod ffactorau allanol ar waith a allai bennu'r canlyniad.

- Nododd yr aelodau yr anghyfartalwch rhwng y targed am gartrefi fforddiadwy a'r nifer sy'n cael ei adeiladu. Teimlodd yr aelodau fod y gwahaniaeth rhwng y ddau yn sylweddol a gofynnon nhw pa mor fawr fyddai angen i'r bwlch fod i'r dangosydd gael ei sgorio'n 'oren'.

Dywedodd swyddogion y byddai 30% o dai ar safleoedd strategol yn fforddiadwy a byddai hyn yn cael ei gyflawni.  Mae datblygwyr yn tueddu i adeiladu stoc tai sy’n creu llif arian yn y dechrau a thai fforddiadwy yn ystod camau hwyrach.  Roedd swyddogion yn hyderus y byddai’r canrannau tai fforddiadwy yn cael eu cyflawni.

- Credodd yr aelodau y byddai’n ddefnyddiol pe bai’r Adroddiad Monitro Blynyddol gan gynnwys manylion am yr hyn sydd wedi’i gyflawni ym mhob safle strategol ledled y ddinas, o ran eiddo sy'n cael eu cwblhau. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am eglurhad o'r broses ar gyfer cyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol.  Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r Cyngor yn cael cyfle i ystyried yr adroddiad.  Cadarnhaodd swyddogion y byddai’r manylion y gofynnwyd amdanynt yn y pwynt cyntaf a godwyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad Monitro Blynyddol.  Gan mai adroddiad technegol oedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol cafodd ei ystyried gan Cabinet cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

- Gan gyfeirio at y CCA Tai Amlfeddiannaeth, gofynnodd yr aelodau a yw’r CCA wedi’i fonitro o gwblhau – er enghraifft a yw nifer y ceisiadau wedi’i dderbyn yn cynyddu/gostwng, nifer yr apeliadau, ac ati. Dywedodd swyddogion fod cydweithwyr wedi’u hymgysylltu a bod Thai Amlfeddiannaeth yn cael eu monitro’n agos.  Mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn derbyn diweddariadau rheolaidd am ganlyniad apeliadau i’r Arolygaeth Gynllunio.  Gofynnodd yr aelodau a fyddai’n bosibl gweld y data ac unrhyw dueddiadau sy’n dod i’r amlwg.  Dywedodd y swyddogion fod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ddogfen statudol ac mae ei baramedrau wedi’u diffinio’r glir.  Fodd bynnag, cytunodd swyddogion i ystyried ffordd ymlaen ar y mater hwn.

- Mynegodd yr aelodau bryderon am mwy o draffig gan fod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn nodi nad yw’r awdurdod yn cyflawni’r cynyddiadau sydd eu hangen yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.  Gofynnodd yr aelodau a yw seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus digonol yn cael ei roi ar waith.  Dywedodd swyddogion fod y gwaith o ddatblygu safleoedd strategol wedi dechrau’n ddiweddar.  Mae cyllid Adran 106 wedi’i sicrhau sy'n cael ei ryddhau fesul camau ac wrth i bob cam gael ei ysgogi buddsoddir yn seilwaith trafnidiaeth.  Roedd yn rhy gynnal gweld unrhyw newidiadau ffisegol eto, ond wrth i fwy o dai gael eu cwblhau, caiff mwy o seilwaith ei roi ar waith.  Mae'r gwasanaeth bws newydd sy’n gweithredu yn safle St Edern yn rhoi tystiolaeth o hyn.

- Credodd aelodau’r Pwyllgor fod y CDLl yn ei gwneud yn glir fod y llwybrau Coridorau Bws Cyflym (CBC) yn hanfodol a’u bod yn ffactor mawr yn y polisi trafnidiaeth.  Gofynnwyd i swyddogion esbonio pam mae cynlluniau CBC wedi'u gohirio a pham nad yw arian yn cael ei ddyrannu.  Dywedwyd wrth yr aelodau fod cydberthyniad rhwng adeiladu tai a rhyddhau arian.  Roedd y rhan fwyaf o safleoedd yng nghamau cynnar y gwaith datblygu ac nid yw’r ysgogwyr a fyddai'n rhyddhau arian wedi'u cyrraedd eto.  Cytunodd y Cyfarwyddwr i adrodd yn ôl i’r Pwyllgor am oedi yng Ngham 1 Coridorau Bws Cyflym ar yr A469 a’r A470.

- O ran lleihau mewn traffig o ganlyniad i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy, gofynnodd yr aelodau a yw teithio i ac o'r ysgol wedi'i ystyried. Dywedodd swyddogion fod gwaith yn cael ei wneud gan gydweithwyr yn yr adran Drafnidiaeth ac Addysg gan fod y mater yn uwch ar yr agenda, ond, bydd goblygiadau adnoddau. Awgrymodd aelod fod y lleihad yn y defnydd o fysus yn dangos bod rhieni yn llai debygol o ddefnyddio gwasanaethau bws. Credodd swyddogion fod y ffigur yn adlewyrchu tuedd genedlaethol ehangach sy'n gysylltiedig ag ystod o faterion gan gynnwys diogelwch ac ansawdd aer.

- Gofynnodd aelod a yw ystyriaeth wedi'i roi i ddarpariaeth stoc tai yn benodol y tai wedi'u dylunio i bobl sy'n byw yn hirach - o ran byw â chymorth. Gofynnodd yr aelod a ellir cynnwys rhywbeth yn y CDLl i ddylanwadu ar y mater hwn yn lleol. Dywedodd swyddogion nad oes unrhyw beth penodol yn y CDLl i fynd i'r afael â'r mater hwn ac nad oes canllawiau cadarn gan Lywodraeth Cymru. Er bod y mater wedi'i gydnabod, nid oes gan yr awdurdod polisi 'newid' y gallai droi ato. Mae tueddiadau adeiladu tai gwahanol yn dod i'r amlwg a dyma un ohonynt. Gallai fod modd i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r mater hwn yn eu datblygiadau adeiladu tai eu hunain.

- Gofynnodd yr aelodau a yw datblygwyr yn oedi adeiladu tai gan fod prisoedd tai'n cynyddu. Hefyd, mae angen brys am dai cymdeithasol ac mae annhebygol y bydd gwelliant mewn degawd. Gofynnodd yr aelodau a oes unrhyw gynlluniau i wella'r gyfradd y mae tai cymdeithasol yn cael eu hadeiladu. Dywedodd swyddogion nad oes tystiolaeth i awgrymu bod datblygwyr yn oedi adeiladi unedau newydd tra bo prisoedd tai'n cynyddu. Achosir oedi gan ystod o resymau cymhleth y gallai cymryd amser i'w cadarnhau neu a allai arwain at lai o bwysau i fwrw ymlaen. Fel arfer darperir tai fforddiadwy ar yr un pryd. Rhagwelir y bydd cyfraddau cyflawni yn cynyddu y flwyddyn.

- Cadarnhaodd swyddogion, ar ôl cwblhau asesiad, nad oedd unrhyw gasgliadau a bod gwaith ar y gweill, yn bosibl gyda chyfraniad Llywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o ddarparu safle newydd ar gyfer y gymuned sy'n teithio.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

25 : DIWEDDARIAD GORFODI PARCIO

Derbyniodd yr aelodau adroddiad yn rhoi diweddariad ar ddull y Cyngor o orfodi parcio gyda chyfeiriad penodol at y cynnig diweddar am 'Cynllun Parcio i Breswylwyr – Trwydded Electronig'; goblygiadau ariannol gorfodi parcio a'r Cyfrif Refeniw Parcio ehangach; a chysondeb safonau sy'n berthnasol o ran gorfodi parcio a lefel hyblygrwydd a ganiateir i Swyddogion Gorfodi Parcio Sifil wrth wneud penderfyniadau.

Dywedwyd wrth yr aelodau y gwnaethpwyd Cyngor Caerdydd yn 2010 yn gyfrifol am orfodi ystod o dramgwyddau parcio. Mae hyn wedi helpu i gyfrannu at amcanion

polisi trafnidiaeth trwy fynd i'r adael â pharcio anghyfreithlon sy'n achosi tagfeydd ac oedi traffig diangen.

Pasiwyd Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013 a daethant i rym ar 25 Mawrth 2014. Mae'r rheoliadau hyn yn galluogi'r Cyngor i orfodi lôn fysus, cyffyrdd sgwâr a rhai troseddau traffig sy'n symud eraill. Mae bellach gan Gyngor Caerdydd bwerau cyfreithiol i reoli parcio a theithio ar hyd y briffordd ac sy'n galluogi'r rheolaeth fwyaf wrth ddefnyddio ei adnoddau gorfodi i gefnogi ei bolisïau trafnidiaeth, gyda'r bwriad o gynorthwyo trafnidiaeth gyhoeddus i symud ac i gadw traffig yn symud.

Gall parcio anghyfreithlon greu problemau gyda gweithredu'r rhwydwaith priffyrdd gan gynnwys effeithio ar allu trafnidiaeth gyhoeddus i redeg yn ddidrafferth ac i bobl allu defnyddio 'dulliau actif' megis cerdded a beicio yn ddiogel ac yn hyderus. Mae'n effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr eraill y ffordd ac mae'n achosi niwsans i drigolion a busnesau eraill. Gall parcio anghyfreithlon gael effaith negyddol ar ardaloedd lleihau arnynt fel lleoedd da i fyw a gweithio.

Mae angen gorfodi i gadw'r rhwydwaith priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus i weithio, taclo peryglon i ddefnyddwyr eraill y ffordd o barcio anghyfreithlon a sicrhau bod mannau parcio yn cael eu defnyddio am barcio ac nid at ddibenion eraill, er enghraifft, am fasnachu anghyfreithlon.

Croesawodd y Cadeirydd Andrew Gregory, Cyfarwyddwr a Matt Wakelam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Strydlun i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y swyddogion i wneud cyflwyniad. Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Cyfeiriodd yr aelodau at y broses ymgynghori ar drwyddedau parcio electronig. Mynegwyd pryderon fod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal ym mis Gorffennaf. Gofynnwyd i swyddogion egluro sut mae ymatebion yn cael eu derbyn ac a fyddai ymgynghoriad arall yn cael ei gynnal. Gofynnodd yr aelodau hefyd a fyddai dau gerbyd gorfodi parcio yn ddigonol pe bai system e-drwyddedau'n cael ei chyflwyno. Dywedodd swyddogion fod yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r Gorchmynion Rheoli Traffig sydd eu hangen i alluogi cynllun e-drwyddedau ac nid y cynllun ei hun. Roedd y gwasanaeth wrthi'n edrych ar sut y byddai e-drwyddedau'n gweithio yng Nghaerdydd. Roedd yn debygol y byddai cynllun peilot yn cael ei weithredu mewn rhan o'r Ddinas. Roedd ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i gryfhau 2 gerbyd ANRP yr awdurdod.

- Awgrymwyd y dylid cynnal ymgynghoriad ar GRhT gydag aelodau etholedig yn y lle cyntaf. Dywedodd swyddogion eu bod yn deall pa mor sensitif yw'r mater hwn ac awgrymon nhw fod e-drwyddedau'n cael eu hystyried yn llawnach mewn cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol. Cytunodd swyddogion i roi manylion am nifer yr ymatebion wedi'u derbyn o'r ymarfer ymgynghori ar GRhT.

- Gofynnodd yr aelodau a all swyddogion roi dadansoddiad o nifer y troseddau traffig sy'n symud wedi'u cyflawni gan yrwyr nad ydynt yn byw yn y Ddinas. Gofynnwyd i swyddogion hefyd i sylwi ar y ffaith bod 50% o apeliadau parcio yn llwyddiannus. Dywedodd swyddogion y

gwybyddir cyfeiriadau'r gyrwyr hynny sy'n cyflawni troseddau ac felly byddai'n bosibl rhoi mwy o fanylion. O ran apeliadau HCB, yn ôl adolygiad o'r gwasanaeth mae hyn yn achos pryder. Mae swyddogion yn drafftio polisi sy'n nodi sut y caiff y broses apelio ei rheoli yn y dyfodol. Bydd y polisi'n sicrhau bod dull cyson yn cael ei roi ar waith. Credodd swyddogion, heb ganllaw polisi, fod amrywiaeth yn y broses wneud penderfyniadau. Bydd polisi cadarn yn cefnogi swyddogion a chynorthwyo gyda meincnodi gydag awdurdodau eraill.

- Credodd yr aelodau y dylai gorfodi geisio newid ymddygiad ac, os yn llwyddiannus, dylai nifer y troseddau sy'n cael eu cyflawni'n lleihau dros amser. Gofynnodd y Pwyllgor fod adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys data a fyddai'n galluogi'r Aelodau i werthuso a yw gorfodi'n effeithiol o ran newid ymddygiad. Gofynnod yr aelodau hefyd a oes unrhyw droseddau sy'n newid. Dywedodd swyddogion y gallant ddadansoddi'r data'n sylweddol. Mae'r holl ddata ar gael ar wefan ffynhonnell agored. Yn gyffredinol, awgrymodd tystiolaeth fod ymddygiad wedi gwella mewn lleoliadau penodol. Fodd bynnag, mae troseddau parcio yn parhau i fod yn gyson ar tua 60,000 HCB y flwyddyn.

- Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r cynllun bathodyn glas a ddefnyddir gan bobl anabl yn cael ei gynnwys yn y cynllun e-drwyddedau, gan fod bathodynnau glas yn cael eu rhoi i bobl unigol ac nid i gerbydau. Felly, mae risg posibl y gallai deiliaid bathodyn glas dderbyn HCB wrth barcio yn unol â'r cynllun bathodyn glas. Dywedodd swyddogion fod y cynllun bathodyn glas yn gynllun cenedlaethol ac na fyddai'n cael ei newid. Bydd y cerbydau APRhA yn cael eu defnyddio fel offer cyfeiriol a ddefnyddio i amlygu ardaloedd problemus ac anfon swyddogion gorfodi iddynt fel sydd angen. Os caiff bathodyn glas ei arddangos yn gywir ac na eir yn groesi i'r cynllun yna ni chaiff HCB ei gyhoeddi.

- Gofynnodd yr aelodau fod adroddiadau misol ar nifer y HCBau parcio sy'n cael eu cyhoeddi fesul ward trwy'r Gwasanaethau Democrataidd yn cael eu cylchredeg eto. Gofynnodd yr aelodau hefyd fod adroddiad tebyg ar HCBau fesul ward yn cael ei gylchredeg hefyd.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

## 26 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL – RHAGLEN WAITH DDRAFFT 2018/19

Gwahoddodd y Prif Swyddog Craffu sylwadau ar y rhaglen waith ddrafft. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau a chymeradwywyd y Rhaglen Waith.

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad ar lafar ar y cynnydd wedi'i wneud ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon. Hefyd atgoffodd yr aelod y rhai oedd yno fod cangen cynnwys cysgodi timau gwastraff gan Aelodau'r Pwyllgor yng nghyfarfod nesaf y grŵp gorchwyl a gorffen.

27 : DIWEDDARIAD GOHEBIAETH – DIWEDDARIAD LLAFAR

Nododd y Prif Swyddog Craffu fod holl ymatebion y Cabinet i ohebiaeth flaenorol wedi'u cyhoeddi ar y dudalen gyfarfod berthnasol ar wefan y Cyngor. Caiff eitem ddiweddaru gohebiaeth ei chynnwys fel eitem barhaol ar agendau'r dyfodol.

28 : BUSNES PWYLLGOR – DIWEDDARIAD LLAFAR AR WE-DDARLLEDU

Croesawodd y Cadeirydd Gary Jones Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd y Prif Swyddog Craffu, yn unol â thelerau'r contract cyfredol ar gyfer gwe-ddarlledu, fod nifer gyfyngedig o oriau ar gael ar gyfer gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Trafododd y Pwyllgor y mater. Gofynnodd yr aelodau faint fyddai caffael oriau ychwanegol yn costio. Dywedodd Gary Jones fod y Cyngor ar fin ddechrau ymarfer tendro a bod angen mwyhau canlyniadau o ran gwe-ddarlledu, ac felly y flaenoriaeth yw gwe-ddarlledu cyfarfodydd sy'n trafod y pynciau sydd o'r budd mwyaf i'r cyhoedd.

Awgrymodd aelodau'r Pwyllgor, yn unol â'r egwyddor bod yn agored a thryloywder, fod dadl y dylai pob achos gael ei we-ddarlledu. Gofynnodd yr aelodau sut y byddai unrhyw bolisi ar yr asesiad o ba faterion sydd er budd y cyhoedd yn cael eu rhoi ar waith – a phwy fyddai'n gyfrifol am wneud y penderfyniad.

29 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

30 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 2 Hydref 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.40 pm